# YSGOL BRYNREFAIL

# PROM 15

Ar y 22ain Mai 2015 fe ffarweliodd disgyblion blwyddyn 11 a'r ysgol ar ddiwedd cyfnod hir o arholiadau.

Ar y 3ydd o Orffennaf 2015 fe ddaeth merched a dynion ifainc yn ôl yn eu lle i ddathlu eu cysylltiadau a'r ysgol dros gyfnod o bum mlynedd trwy fwynhau Prom 15.

Fel y llynedd fe ddathlwyd cysylltiadau'r criw ifanc a'r ysgol dros gyfnod gyda Prom fawreddog a drefnwyd gan Mrs Ellen Williams.

Bu I bawb ymgynnull yng Ngwesty Victoria, Llanberis, er mwyn mwynhau cinio swmpus a dawnsio brwdfrydig.

Ni welwyd erioed cymaint o ferched ifanc hardd a dynion ifanc golygus dan do un ystafell fawreddog.

Bu bwyta a sgwrsio, chwedleua a chwerthin, dawnsio egnïol a hynny i ddathlu y cyfraniad ganddynt i Ysgol Brynrefail a chyfraniad Ysgol Brynrefail yn eu datblygiad.

Dymuna teulu Brynrefail y gorau oll iddynt yn eu dyfodol.